# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Mawrth 13, 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Newidiadau i Amodau Gwaith Lleol y Cyngor** |

1. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r newidiadau arfaethedig i Amodau Gwaith Lleol y Cyngor.

2. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Er mwyn moderneiddio a diwygio'r amodau gwaith lleol gan hefyd gyflawni arbediad fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i ymdopi hefo'r her ariannol bresennol a wynebir.

3. **CEFNDIR**

Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn cynnal trafodaethau hefo cynrychiolwyr yr undebau cydnabyddedig ers Hydref 2015 er mwyn gwireddu arbediad o'r amodau gwaith lleol.

Daeth yn amlwg yn ystod y 12 mis diwethaf y byddai sicrhau cytundeb torfol er mwyn gwireddu'r arbediad yn anodd - hynny yn sgil y ffaith nad yw Swyddfa Genedlaethol UNSAIN yn fodlon caniatáu i unrhyw gangen leol fynd i falot ar gynnig sy'n ymwneud a dirywiad mewn amodau gwaith.

Er ymdrechion gan y Cyngor i geisio newid y safbwynt hwn, cadarnhawyd yn derfynol yn Rhagfyr 2017 na fyddai modd sicrhau cytundeb torfol (er bod cynrychiolwyr UNITE a'r GMB yn fodlon cynnig balot i'w haelodau ar y sail mai dyna'r pecyn gorau y gellid ei negodi o dan yr amgylchiadau).

Felly, er mwyn gwireddu'r arbediad, ac ar y sail bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad, bydd y Cyngor mewn sefyllfa o orfod diddymu contractau cyflogaeth a chynnig contract o'r newydd, oni fod pob aelod o staff yn unigol yn gwirfoddoli i dderbyn yr addasiadau i'w cytundeb cyflogaeth presennol.

Gellir crynhoi y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn;

A. Diddymu’r atodiad o 20% (1/5) yr awr i gyflog staff sy’n gweithio rhwng 8 a 10 y nos. O wneud hyn, yr unig daliad ychwanegol am weithio oriau anghymdeithasol o fewn y Cyngor fydd i’r unigolion hynny sy’n gweithio shifftiau’r nos h.y. ar ôl 10. Bu i 1,140 o staff y Cyngor hawlio’r lwfans ychwanegol hwn yn ystod 2016/17. **Arbediad Arfaethedig : £154,000** (gan hefyd arbed gor-wariant hanesyddol o £16,000 pellach o fewn y maes Gofal).

B. Addasu’r Cynllun Colled Ariannol (Gwarchodaeth Cyflog) o 3 blynedd ar sail 100% o warchodaeth i;

i) Blwyddyn ar sail 100% o warchodaeth
ii) Blwyddyn ar sail 50% o warchodaeth

Mae 20 o staff y Cyngor yn derbyn gwarchodaeth cyflog yn bresennol.
**Arbed Costau Arfaethedig : £64,000**

C. Addasu’r polisi ar gyfer ad-hawlio costau teithio ple bydd swyddogion yn hawlio ad-daliad am y nifer milltiroedd busnes a deithir **uwchben y nifer milltiroedd a deithir** o’r cartref i’r gwaith/gwaith i’r cartref yn unig.
Bu i 2,478 o aelodau staff y Cyngor hawlio ad-daliad am gostau teithio yn ystod 2016/17.
**Arbediad Arfaethedig : £180,000**

CH. Lleihau’r taliad ar gyfer bod “ar ddyletswydd” tu allan i oriau gwaith arferol h.y. y lefel uchaf o’r ddau daliad - hynny o £265.88 yr wythnos yn bresennol i £200 yr wythnos. Bu i 136 o staff y Cyngor hawlio lwfans “ar ddyletswydd” yn ystod 2016/17.
**Arbediad Arfaethedig : £52,000**

**Byddai gwireddu’r pedwar newid yma yn caniatáu i’r Cyngor, nid yn unig i wireddu’r arbediad angenrheidiol, ond hefyd i leihau’r didyniad presennol o gyflog pob aelod o staff h.y. o’r hyn sydd gyfwerth a 1½ diwrnod o gyflog mewn blwyddyn i un diwrnod.**

Mae’r cyfanswm arbedion o’r newidiadau a nodir yn (A) i (Ch) yn £450,000 ond mae’r argymhelliad i leihau’r didyniad cyflog presennol yn gostwng y gwir arbediad i £295,000. Seilir yr arbediad arfaethedig ar y gwariant a wnaed ar y penawdau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 (sef y flwyddyn ariannol llawn ddiweddaraf).

Yn sgil y ffaith nad oedd modd sicrhau cytundeb torfol, bu i’r Cyngor lythyru mwy na 6,000 o staff ar y 26ain o Ionawr eleni er mwyn ymgynghori’n uniongyrchol hefo’r gweithlu a’u gwahodd i gysylltu hefo’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol gydag unrhyw ymholiadau neu sylwadau yn ymwneud a’r newidiadau arfaethedig.

Derbyniwyd cyfanswm o 41 sylw hyd at yr adeg y rhyddhawyd yr adroddiad hon ond caniatawyd hyd at y 12fed o Fawrth ar gyfer cyflwyno sylwadau (gellir adrodd ar unrhyw sylwadau a dderbynnir yn y cyfamser i aelodau’r Cabinet yn y cyfarfod).

Ymhellach bu i aelodau o'r Tîm Ymgynghorol Adnoddau Dynol drefnu i fynychu rhai cyfarfodydd tîm o fewn y Cyngor er mwyn egluro'r hyn a gynigir ac i ymateb i unrhyw ymholiadau. Mae'r dadansoddiad a wnaed yn cynnwys rhai sylwadau a gyflwynwyd ar lafar yn y cyfarfodydd hynny.

Roedd 37 o'r sylwadau a dderbyniwyd yn un ai gwrthwynebu'r pecyn yn ei gyfanrwydd neu'n gwrthwynebu elfennau unigol ohono (9 ohonynt heb gynnig rheswm am hynny), tra bo 4 ymateb yn nodi eu bod yn cytuno hefo'r pecyn o newidiadau i'r amodau gwaith lleol.

O'r 28 gyflwynodd wrthwynebiad gan gynnig rhesymau, roedd 22 yn ymwneud a gostwng y tal ar-ddyletswydd, 14 yn gwrthwynebu'r newid i'r telerau gwarchodaeth cyflog, 9 yn gwrthwynebu diddymu'r taliad ychwanegol am weithio rhwng 8 a 10 y nos a 6 yn gwrthwynebu'r newid i'r polisi ad-hawlio costau teithio.

Cynigir bod y nifer sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchiad o'r farn gyffredinol ymysg staff y Cyngor, sef bod y pecyn dan ystyriaeth, er nad yn ddymunol, yn gam sydd angen ei gymryd ac yn un, o'i wireddu, fydd yn arwain at ddiogelu'r hyn sydd gyfystyr ag 20 swydd llawn-amser yn ogystal a lleihau'r hyn a dynnir o gyflogau staff yn fisol fel rhan o gytundeb torfol blaenorol.

O gymeradwyo'r argymhelliad i awdurdodi'r newidiadau hyn i'r amodau gwaith lleol, bydd y Cyngor yn ysgrifennu eto at bob aelod o staff yn eu hysbysu o'r penderfyniad ac yn;

i) eu gwahodd i dderbyn amrywiad i'w cytundeb gwaith presennol, neu
ii) darparu rhybudd o ddeuddeg wythnos i ddiddymu'r gytundeb cyflogaeth presennol a chynnig cytundeb newydd ar sail y newidiadau i'r amodau gwaith lleol

Eto, o gymeradwyo'r argymhelliad, bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno oddi ar y 1af o Orffennaf eleni.

**ARGYMHELLIAD**
Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau i'r amodau gwaith lleol, fel ag y'u nodir yn yr adroddiad, i ddod yn weithredol oddi ar y 1af o Orffennaf 2018.

**Barn Swyddogion Statudol:**

i. **Prif Swyddog Cyllid**
Cadarnhaf fod y ffigyrau ar ail dudalen yr adroddiad yn amcangyfrifon teg o'r arbedion gellid gwireddu a chostau gellid osgoi, ac yn cyflawni'r tybiaeth sy'n strategaeth ariannol 2018/19. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

ii. **Swyddog Monitro**
Fe nodir fod prosesau ymgynghorol wedi eu dilyn wrth baratoi yr argymhelliad a bydd diweddariad ar y canlyniadau yn y cyfarfod. Wrth ystyried y penderfyniad mae'n allweddol fod y Cabinet yn cloriannu'r holl amgylchiadau a gwybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno.